# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL ARIANNU ALLANOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 5 HYDREF 2016 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | J E C Harris |
| A S Lewis | C E Lloyd | J A Raynor |
| C Richards | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Prif Gyfrifydd, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Spencer Martin | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Wade | Cydlynydd Perthynas y Sector Gwirfoddol |
| Jane Whitmore | Rheolwr y Gwasanaethau Tai Cymunedol |
| Elliott Williams | Pennaeth Gweithredol Tlodi ac Atal Tlodi |
| Gaynor Winsor | Swyddog Rhaglen Cyllid Ewropeaidd ac Allanol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): W Evans

14 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorwyr M Child, R Francis-Davies, J Harries, C Lloyd, J Raynor, C Richards, R Stewart a’r swyddogion S Martin, A Lowe, S Richards a J Whitmore - Cofnod Rhif 18 (B2) Cronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned – Personol – mae'r ymgeisydd yn gweithio i Ddinas a Sir Abertawe ac yn hysbys i ni.

Y Cynghorwyr R Francis-Davies ac A Lewis – Cofnod Rhif 18 (B4 a B5) Cronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned – Personol – o fewn ward Treforys.

Y Cynghorydd A Lewis – Cofnod rhif 17 - Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru/Parthau Arbed 2016/17 Cais Ardal Adnewyddu Sandfields – Personol a Rhagfarnol – Fel Aelod y Cabinet cymeradwyais gais Arbed yn 2016/17 a ddaeth gerbron y pwyllgor. Ni chymerodd y Cyng. A Lewis unrhyw ran bellach yn y trafodaethau na phleidleisio ar yr eitem hon.

Y Cynghorydd R Stewart – Cofnod rhif 18 (B1) Cronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned – Personol - Rwy'n adnabod yr ymgeisydd. Ni chymerodd y Cyng. Stewart ran wrth bleidleisio ar yr eitem hon.

15 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 3 Awst 2016 fel cofnod cywir.

16 **GALLUOGI'R GRANT CYFALAF.**

Cyflwynodd Prif Gyfrifydd y Gwasanaethau Cymdeithasol y Grant Cyfalaf Hwyluso ar ran Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion â’r bwriad o gymeradwyo'r Grant Cyfalaf Hwyluso gan Lywodraeth Cymru a chynnwys y gwariant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2016/17.

Byddai cyfanswm lwfans y grant sef £280,349 yn cael ei ddyrannu i’r tîm Gofal a Thrwsio gyda mandad i barhau â'r cynllun Grant Cartrefi Iachus a werthuswyd yn gadarnhaol ar ôl dyraniad ICF ar gyfer 2014/15 a byddai gwaith ymarferol yn cynnwys:

- Addasiadau lefel ganol, gan roi blaenoriaeth i waith sy'n cynorthwyo gyda gadael yr ysbyty, atal cwympiadau yn y cartref neu roi cefnogaeth i bobl hŷn;
- Addasiadau lefel ganol ac addasiadau i gartrefi ar gyfer yr henoed dros 60 oed sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain neu lety a rentir yn breifat.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r** argymhelliad i gydymffurfio â Rheol Gweithdrefn Ariannol Rhif 7 (Rhaglennu ac Arfarnu Cyfalaf) ar gyfer ymrwymo ac awdurdodi cynlluniau i'r rhaglen gyfalaf.

17 **CARTREFI CYNNES LLYWODRAETH CYMRU / PARTHAU ARBED 2016-17 ARDAL ADNEWYDDU CAIS ALLANOL ARIANNU SANDFIELDS.**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai Cymunedol adroddiad i gyflwyno manylion y cais am arian Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru/Parthau Arbed 2016/17 ar gyfer Ardal Adnewyddu Sandfields.

Rhaglen buddsoddiad perfformiad ynni strategol Llywodraeth Cymru yw Arbed ar gyfer helpu i fodloni ymrwymiadau i leihau newid yn yr hinsawdd, helpu i waredu tlodi tanwydd a rhoi hwb i ddatblygiad ac adfywio economaidd yng Nghymru.

Mae rownd ddiweddaraf cyllid Arbed sef 'Cartrefi Clyd a Pharthau Clyd Llywodraeth Cymru' wedi cael ei chyhoeddi er mwyn cefnogi cynlluniau effeithlonrwydd ynni mewn ardaloedd awdurdod lleol, mwyafu nifer y cartrefi a gymeradwyir a chanfod cyllid o ffynonellau eraill megis Rhwymedigaeth Cwmni Ynni i fwyafu buddsoddiad.

Dywedodd oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer cyflwyno cais a roddwyd i'r cyngor gan Lywodraeth Cymru, roedd y cais eisoes wedi'i gyflwyno, ar ôl cael cyngor a chaniatâd gan y Cyfarwyddwr Lleoedd, Pennaeth Tai a Diogelu’r Cyhoedd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r** cais am arian Cartrefi Clyd/Parthau Arbed Llywodraeth Cymru 2016/17 ar gyfer Ardal Adnewyddu Sandfields.

## 18 CRONFA TRAWSNEWID GWEITHREDU YN Y GYMUNED.

Cyflwynodd Cydlynydd Perthynas y Sector Gwirfoddol adroddiad ar geisiadau am bumed rownd ariannu Cronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned. Roedd cefndir ac egwyddorion y gronfa, ynghyd â'r meini prawf y dylai ceisiadau eu bodloni a'r hyn y gellir ei ddefnyddio ar eu cyfer, wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Nododd y panel fod un cais yn cael ei ohirio a bod pedwar cais newydd wedi'u derbyn erbyn y dyddiad cau ar gyfer y bumed rownd ariannu ar 26 Awst 2016 fel a ganlyn:

1. Whitehead-Ross Educating and Consulting Limited;

2. Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf;

3. Cymdeithas Fowlio Parc y Werin;

4. Ymddiriedolaeth Adeilad Tabernacl Treforys - Cloc;

5. Grŵp Mamau a Phlant Bach y Sacred Heart.

Trafododd Cydlynydd y Trydydd Sector grynodeb o'r ceisiadau'n fanwl yn Atodiad A ac Atodiadau B1 i B5.

Trafodwyd y ceisiadau gan aelodau a gofynnwyd cwestiynau i'r swyddog, a wnaeth ymateb yn briodol.

**CYTUNODD** y panel ar y canlynol:

1. Dylid **GWRTHOD** y cais a gyflwynwyd gan Whitehead Ross Educating and Consulting Ltd oherwydd newid blaenoriaethau yn Ninas a Sir Abertawe o ran y Gwasanaeth Ieuenctid yn gyffredinol;

2. Dylid **CYMERADWYO'R** cais a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf ar gyfer y swm o £23,800;

3. Dylid **CYMERADWYO'R** cais a gyflwynwyd gan Gymdeithas Fowlio Parc y Werin ar gyfer y swm o £11,240;

4. Dylid **CYMERADWYO'R** cais a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Adeilad y Tabernacl Treforys ar gyfer y swm o £6,276;

5. Dylid **GWRTHOD** y cais a gyflwynwyd gan Grŵp Mamau a Phlant Bach y Sacred Heart gan ei fod yn anghymwys ar gyfer y Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned gan nad oes unrhyw arbediad i'r awdurdod. Nid yw asedau neu wasanaeth yn cael eu trosglwyddo yn y cais. Cynigir cyngor i'r ymgeisydd ar ffynonellau ariannu eraill y gellid cyflwyno cais amdanynt.

Ni wnaeth y panel drafod a fyddai ariannu ychwanegol ar gyfer y chweched rownd o ariannu ac unrhyw ddyraniad o'r rownd hon sydd dros £48,700 sy'n weddill o'r £300,000 gwreiddiol a roddwyd i'r Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned.

19 **RHAGLEN RHEOLI RISG ARFORDIROL: ADRODDIAD ARFARNU PROSIECT LLINIARU PERYGL LLIFOGYDD STRATEGOL ARDAL GANOLOG ABERTAWE.**

Rhoddodd Swyddog y Rhaglen Cyllid Ewropeaidd ac Allanol drosolwg i geisio cymeradwyaeth ar gyfer grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Adroddiad Arfarnu Prosiect ar gyfer Prosiect Lliniaru Perygl Strategol Ardal Ganolog Abertawe.

Mae LIC wedi lansio rhaglen ariannu Rheoli Peryglon Arfordirol sy'n rhoi un cyfle i awdurdodau lleol roi prosiectau rheoli llifogydd arfordirol ar waith gyda LIC yn cyfrannu 75% o gostau'r prosiect. Fel rhan o'r rhaglen hon, disgwylir i awdurdodau lleol nodi prosiectau posib, llunio achos busnes a sicrhau 25% o'r arian cyfatebol.

Byddai'n cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu'r achos busnes angenrheidiol gyda Llywodraeth Cymru'n darparu 100% o'r arian grant ar gyfer paratoi Adroddiadau Arfarnu Prosiect, a fyddai'n cynnwys gwaith i fonitro'r llanw, astudiaethau dichonoldeb ac ystyried cyfleoedd economaidd ac adfywio ehangach a nodi ffordd ymlaen a ffefrif i reoli llifogydd a chyflwyno cais am fwy o fuddsoddiad.

**PENDERFYNWYD** bod y Panel Ariannu Allanol yn **cefnogi'r** cais i Lywodraeth Cymru ar gyfer grant 100% i fwrw ymlaen ag Adroddiad Arfarnu Prosiect ar gyfer Prosiect Lliniaru Perygl Llifogydd Strategol Ardal Ganolog Abertawe.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.45 pm

**CADEIRYDD**